**Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd Seliag a Dermatitis Herpetiformis**
**Cross Party Group on Coeliac Disease & Dermatitis Herpetiformis**

Dyddiad ac amser: Dydd Mercher 07 Mehefin 2017, 18.00-19.45
Wednesday 07 June 2017, 18.00-19.45
Lleoliad: Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel.
Conference Room C - Tŷ Hywel

Yn bresennol: Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd), Tristan Humphreys (Ysgrifennydd), Dr Geraint Preest, Graham Phillips, Dr Jill Swift, Marcia Spooner, Nick Ramsay AC.

| Rhif. | Eitem |
|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>Dr Huw Jenkins, Henry Wilkins, Rhun ap Iorwerth AC, Mike Hedges AC, Sian Evans, Alison Jones, Clare Constantinou, Norma McGough. |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br><br>Cymeradwywyd y cofnodion heb ddiwygiadau |
| 3 | **Cymorth i ddysgwyr sydd ag anghenion meddygol**<br><br>a. CYFLWYNIAD: Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)<br><br>Roedd Sara Moran (Diabetes UK) i fod yn bresennol ond oherwydd y niferoedd isel y teimlad oedd efallai y byddai'n well gohirio tan y cyfarfod nesaf. Soniodd Tristan Humphreys (TH) am y datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru). Mae adroddiad craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg bellach wedi ei gyhoeddi. Mae Coeliac UK yn falch o weld bod y pwyllgor wedi derbyn argymhellion o dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig y y Gynghrair Iechyd mewn Ysgolion. Yn benodol, derbyniodd y pwyllgor y cynnig i ddiwygio'r diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn cynnwys cyflyrau meddygol.<br><br>Mae peth pryder o safbwynt Coeliac UK bod y diffiniad hwn yn cyd-fynd ag amodau sydd wedi eu derbyn fel anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn unig. Byddai hyn o bosibl yn eithrio clefyd coeliag a rhai cyflyrau tymor hir a chronig eraill rhag cael eu cynnwys yn y Bil. Fodd bynnag, ystyrir nad hyn yw bwriad y pwyllgor a dylai fod lle i egluro hyn yng nghyfnod 2.<br><br>Yn wreiddiol, ystyriwyd edrych ar hynt y Bil yn nhymor yr hydref. Fodd bynnag, gallai hyn gael ei ohirio oherwydd bod y Penderfyniad Ariannol yn cael ei ohirio tan yn ddiweddarach yn y broses graffu.<br><br>Mae Coeliac UK a'i bartneriaid hefyd wedi cyflwyno ymgynghoriad ar weithrediad y Bil.<br><br>b. Y diweddaraf ar Ganllawiau Ysgolion<br><br>Mae Alun Davies AC, y Gweinidog dros y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, wedi ysgrifennu at bob ysgol yng Nghymru (gweler y llythyr yma) i dynnu sylw at ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru i ysgolion er mwyn Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd. Mae wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan bob Awdurdod Lleol erbyn diwedd y tymor. |

| | |
|---|---|
| | c. Cwestiynau a thrafodaeth<br><br>Amlygodd Dr Geraint Preest (GPr) faterion o anghysondeb o ran gofal i’w ferch yn yr ysgol a diffyg dealltwriaeth o glefyd seliag, yn enwedig gan nodi’r her o ran gwersi coginio. Cytunodd TH ac esbonio bod amrywioldeb o ran y gefnogaeth yn elfen bwysig o hyrwyddo’r angen i sicrhau dyletswydd statudol ac yn fater sy'n gyffredin i'r holl bartneriaid yn y gynghrair. Mae rheoli bwyd yn her fawr i Coeliac UK ond, yn fwy cyffredinol, mae cynwysoldeb yn bwysig iawn i bawb. Mae'n bwysig bod ysgolion yn cymryd camau angenrheidiol i addasu gweithgareddau i alluogi plant i gymryd rhan gyda'r pwyslais ar gynnwys y plentyn yn hytrach na dim ond ei eithrio o unrhyw weithgareddau yr ystyrir eu bod yn peri risg iddo. Mae'r canllawiau uchod wedi gwella yn hyn o beth, ond yn parhau i fod yn wirfoddol ac yn gadael penderfyniadau terfynol ynghylch a oes angen Cynllun Gofal Iechyd yn nwylo'r Pennaeth. Heb gefnogaeth statudol, nid yw hyn yn cael gwared ar yr her o ddelio â Phennaeth ystyfnig. Fodd bynnag, byddai cynnwys Cyflyrau Meddygol o fewn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cyflawni hyn.<br><br>**TH a Sara Moran i adrodd yn ôl i'r grŵp yn y cyfarfod nesaf** |
| 4 | ‘Gluten Freevolution’<br><br>a. CYFLWYNIAD: Cyflwyniad i'r ymgyrch<br><br>Lansiodd Coeliac UK ymgyrch bwyta allan newydd yn y Senedd i gyd-fynd ag Wythnos Ymwybyddiaeth (8-14 Mai). Mae'r 'Gluten Freevolution' yn canolbwyntio ar gynyddu argaeledd bwydydd heb glwten, yn enwedig wrth fynd o le i le. Mae ystod o adnoddau ar gael i arlwywyr yn cynnwys ffilm arlwyo newydd a chanllawiau bwyd. Cafodd cefnogwyr hefyd eu hannog i ddefnyddio cardiau post yr ymgyrch i annog busnesau i ddarparu cynhyrchion heb glwten.<br><br>b. Wythnos Ymwybyddiaeth a gweithgareddau’r Senedd<br><br>Lansiwyd yr ymgyrch yn Ffreutur Cynulliad Cymru gyda bwydlen ar thema bwyd heb glwten ar gael i Aelodau'r Cynulliad a staff trwy gydol y dydd ochr yn ochr â stondin gwybodaeth i'r rhai sydd am gael gwybod mwy. Cyflwynodd Dr Dai Lloyd AC hefyd Gwestiwn ysgrifenedig i’r Gweinidog Iechyd a ysgogodd ddatganiad cefnogol ar ragnodi heb glwten.<br><br>c. Cwestiynau a thrafodaeth<br><br>Trafodwyd y perygl o groes-halogi a thrafodwyd hefyd bod angen sicrhau bod cwmnïoedd yn deall pwysigrwydd dilyn y gweithdrefnau cywir wrth hysbysebu bwyd heb glwten. Yr enghraifft a gododd oedd pan na fydd bwytai yn sylweddoli bod angen newid yr olew mewn ffriwyr saim dwfn. Roedd GPr yn pryderu bod llawer yn mynd i'r pegwn arall, gyda staff yn amharod i warantu am y bwyd heb glwten er mwyn ‘bod yn saff’. Pwysleisiodd TH bwysigrwydd cyfathrebu priodol o fewn y cwmni i staff ac, yn hanfodol, i'r cwsmer. Nid yw'n ddigon i gael rhywun yn y brif swyddfa sy'n deall. Mae angen i staff sy’n gweini fod yn ymwybodol er mwyn gallu ateb cwestiynau neu, o leiaf, enwi cydweithiwr sy'n gallu gwneud hynny. Nid yw darparu rhestr mawr o gynhwysion heb esboniad yn ddigon. Nid yw’r broses o ddarparu bwydydd heb glwten yn gorfod bod yn waith caled i gwmnïau, ac mae llawer yn ei wneud yn dda iawn.<br><br>Cynhaliwyd trafodaeth gyffredinol ynglŷn â'r gyfradd o bobl sy’n cael diagnosis |

| | |
|---|---|
| | o glefyd seliag. Esboniodd TH mai'r gyfradd gyfredol o bobl sy'n cael diagnosis yng Nghymru yw 22% a'r amser cyfartalog ar gyfer diagnosis yw 13 mlynedd. Mae hyn nid yn unig yn arwain at ddioddefaint diangen i'r unigolyn dan sylw, ond hefyd yn arwain at wastraffu adnoddau'r GIG. Arweiniodd y mater hwn at lansio Ymgyrch Coeliac UK 'Is it Coeliac Disease?' yn 2015 gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr a gwella cyfraddau diagnosis. Esboniodd GPr fod hyn yn bwysig iawn oherwydd gall clefyd coeliag heb ei ganfod, heb ei drin arwain at wneud yr unigolyn yn llawer mwy tebygol o ddatblygu cyflyrau eraill megis osteoporosis. Arweiniodd hyn at drafodaeth o fodiwl Informatica ar glefyd seliag. |
| 5 | Informatica:<br><br>a. Diweddariad ar gynnydd (NMG / TH)<br><br>Rhoddodd GPr gyflwyniad ar gefndir y feddalwedd ac esboniodd mai bwriad y feddalwedd yw helpu meddygon teulu i nodi achosion posibl o glefyd seliag. Mae cynnydd wedi'i wneud a chyflwynwyd y feddalwedd ar ddechrau 2016. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod meddygon teulu yn ymwybodol ohoni ac yn gwybod sut i'w defnyddio'n iawn. Ychwanegodd TH fod ymdrech yn cael ei wneud i gael caniatâd i gasglu data yn ganolog er mwyn gallu monitro effaith y feddalwedd.<br><br>Rhoddodd TH y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am yr ymdrechion i gael cymeradwyaeth DQS ar gyfer casglu'r data dan sylw gan nodi bod y cyfarfod DQS perthnasol wedi cael ei ohirio eto tan ddiwedd mis Mehefin. Mae TH yn ceisio cwrdd â Simon Scourfield (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru) cyn hyn a bydd yn adrodd yn ôl i'r grŵp yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Awgrymodd GPr y gellid defnyddio sesiynau dysgu a ddiogelir i hyrwyddo'r feddalwedd i feddygon teulu. Cytunodd TH i symud ymlaen gyda hyn.<br><br>**TH i gysylltu â Byrddau Iechyd Lleol ynghylch y defnydd o sesiynau dysgu a ddiogelir**<br>**TH i gyfarfod â Simon Scourfield o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru**<br>**TH i adrodd yn ôl i'r grŵp yn y cyfarfod nesaf** |
| 6 | Presgripsiynau<br><br>a. Diweddariad ar ymgynghoriad GIG Lloegr (TH)<br><br>Rhoddodd TH ddiweddariad ar ragnodi yn Lloegr.<br><br>Yn ystod y 18 mis diwethaf mae nifer sylweddol o Grwpiau Comisiynu Clinigol (CCG) yn Lloegr wedi cyfyngu ar bresgripsiynau heb glwten yn eu hardal, neu wedi tynnu'r ddarpariaeth yn ôl. Yn fuan ar ôl y cyfarfod diwethaf (21.03.17), lansiodd y GIG yn Lloegr ymgynghoriad ar ragnodi heb glwten. Mae hyn yn cynnig 3 opsiwn;<br><br>1) Gwneud dim newidiadau i'r system bresennol, gan ganiatáu i feddygon teulu barhau i ragnodi yn unol â'u polisïau rhagnodi CCG lleol<br>2) I gael gwared ar yr holl fwydydd heb glwten o'r rhestr o gynhyrchion ar bresgripsiwn. O dan yr opsiwn hwn ni fyddai unrhyw fwydydd heb glwten ar gael ar bresgripsiwn mewn gofal sylfaenol.<br>3) Caniatáu rhagnodi rhai bwydydd heb glwten (ee bara a blawd) mewn gofal |

| | |
|---|---|
| | sylfaenol yn unig.<br><br>Mae Coeliac UK wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac mae hwn ar gael yn llawn ar y wefan. Mae'r elusen hefyd wedi rhyddhau datganiad i'r wasg a chysylltu â'r holl aelodau, trefnwyr grŵp ac ymgyrchwyr i roi gwybod iddynt, gan fod yn glir y bydd hyn ond yn effeithio ar Loegr.<br><br>Mae Coeliac UK wedi gwrthwynebu unrhyw gynlluniau i ychwanegu bwydydd heb glwten i atodiad 1 (opsiwn 2) ac wedi dadlau o blaid caniatáu i feddygon teulu arfer barn glinigol i gefnogi cleifion yn ôl yr angen ac, yn benodol, i gefnogi cleifion sy'n agored i niwed oherwydd y materion anghydraddoldeb yn ymwneud â darpariaeth bwyd heb glwten ym maes manwerthu.<br><br>Mae'r elusen hefyd wedi dadlau o blaid adolygu'r cynnyrch heb glwten a restrir yn seiliedig ar gaffael cystadleuol i gynhyrchu rhestr fyrrach o gynnyrch a fydd yn arbed cost i'r GIG.<br><br>Peilot Hywel Dda<br><br>Ar ôl rhywfaint o oedi, mae cynllun rhagnodi heb glwten Hywel Dda yn barod i'w gyflwyno ym mis Awst/Medi. Mae Alison Jones (AJ) hefyd wedi derbyn cyllid ymchwil er mwyn cefnogi proses werthuso gadarn. Bydd yn rhoi cyflwyniad ar hyn yn y cyfarfod nesaf.<br><br>b. Cwestiynau a thrafodaeth<br><br>**Alison Jones a Tristan Humphreys i gyfarfod cyn y broses o gyflwyno cynllun rhagnodi Hywel Dda**<br>**Alison Jones i roi cyflwyniad ar gynllun rhagnodi Hywel Dda yn y cyfarfod nesaf** |
| 7 | Unrhyw fater arall<br><br>a. Diweddariad ar y Sioe Fwyd Heb Glwten (TH)<br><br>Cynhelir y Sioe Fwyd Heb Glwten cyntaf ar 28 Hydref rhwng 10-4 yn y Radisson Blu yng Nghaerdydd.<br><br>Hyd yn hyn, mae 18 o gwmnïau wedi cadarnhau y byddant yn mynychu, gyda 6 stondin yn weddill. Y prif noddwyr yw Genius a Prima Foods ac mae'r mynychwyr eraill fel a ganlyn: Welsh Hills, Schar, Tesco, Nature's Path, Monty's Brewery, Wadworth, Glebe farm, Warburtons, Voakes, Juvela, Bfree, Green Sisters, Nutribrex, GOSH, Glutafin, Venice bakery.<br><br>Cynhelir digwyddiadau ymylol ar y diwrnod hefyd, gan gynnwys clinigau deietegol, cyflwyniadau ymchwil a dadl panel.<br><br>Mae taflen hyrwyddo ddwyieithog wedi ei chynhyrchu ac mae bellach modd cofrestru ar gyfer y digwyddiad. Gwahoddodd TH aelodau i ymuno ag ef ar y diwrnod.<br><br>Cynigiodd Dr Jill Swift (JS) hyrwyddo'r digwyddiad yn ei chlinigau.<br><br>**TH i bostio taflenni i JS** |

| | |
|---|---|
| | |
| 8 | Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:<br><br>6pm, 26 Medi |

**Camau Gweithredu**

| **Cam gweithredu** | **Wedi ei neilltuo i** |
|---|---|
| **Adrodd yn ôl ar gynnydd y Bil ADY yn y cyfarfod nesaf** | **TH** |
| **Gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol am y defnydd o sesiynau dysgu a ddiogelir** | **TH** |
| **Cwrdd â Simon Scourfield (gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)** | **TH** |
| **Adrodd yn ôl ar benderfyniad y pwyllgor DQS** | **TH** |
| **Postio pecyn o daflenni i Jill Swift** | **TH** |
| **Cyfarfod Cynllun Rhagnodi Hywel Dda** | **AJ / TH / NMG** |
| **Cyflwyniad ar Gynllun Rhagnodi Hywel Dda** | **AJ** |
| | |
| | |
| | |